Gwasanaeth Cyfnod Allweddol 2: Diwrnod Cofio'r Holocost 2018

7 – 11 oed

HOLOCAUST MEMORIAL DAY TRUST

Nodau:
- Dechrau dod i wybod am Anne Frank.
- Cydnabod bod modd defnyddio geiriau er gwell.

Bydd angen y canlynol arnoch:
- Cyflwyniad PowerPoint Diwrnod Cofio'r Holocost a Sgript i'r Gwasanaeth CA2
- Siartiau troi/pennau ysgrifennu
- Copi o Dyddiadur Anne Frank (dewisol)
- Cyfleusterau i chwarae cerddoriaeth (sydd ar gael ar sleid 1 a sleid 17) a fideo pedair munud (sydd ar gael ar sleid 15), er bod y rhain yn ddewisol
- Taflunydd a sgrin i weld y cyflwyniad

Sleid 1: Sleid sy'n cynnwys y Teitl. Diwrnod Cofio'r Holocost
Gwasanaeth CA2

Ceir dolen i ddarn o gerddoriaeth ar y sleid hwn y gellir ei chwarae wrth i'r plant ddod i mewn i'r gwasanaeth. Mae'r un gerddoriaeth ar gael wrth iddynt adael ar ddiwedd y gwasanaeth.

Gofynnwch i'r grŵp godi eu llaw os ydynt yn cadw neu erioed wedi cadw dyddiadur.

Cadwch eich llaw i fyny os ydych yn ysgrifennu'ch dyddiadur ar-lein ar ffurf blog.

Codwch eich llaw os ydych yn cadw dyddiadur fideo.

Codwch eich llaw os ydych yn ysgrifennu dyddiadur â llaw mewn llyfr.

Gofynnwch i ychydig o'r disgyblion ddweud pam eu bod yn hoffi ysgrifennu dyddiadur.

Sleid 2: Nodau
Darllenwch drwy'r nodau.

Efallai y bydd rhai o'r plant wedi clywed am Anne Frank, ac eraill ddim. Gofynnwch i'r plant godi eu llaw i weld faint ohonyn nhw sydd wedi clywed amdani.

Sleid 3: Beth yw Diwrnod Cofio'r Holocost?
Darllenwch y testun ar y sleid. Trafodwch eirfa os oes angen.

Sleid 4: Yr Ail Ryfel Byd
Darllenwch y testun ar y sleid.
Efallai y bydd angen sôn am y ffaith nad oedd pob Almaenwr yn Natsi nac yn rhannu credoau Hitler (byddwch yn ystyriol o blant yn y grŵp).
Nodwch hefyd fod Natsïaid yn credu nad Almaenwyr go iawn oedd Iddewon o'r Almaen am nad oeddent yn rhan o'u syniad o'r hyn y dylai pobl yr Almaen fod.

Sleid 5: Beth yw Rhagfarn?
Darllenwch y testun ar y sleid.
Gofynnwch i'r plant am eu hawgrymiadau pam bod hyn yn anghywir. Gwnewch nodyn ohonynt. Mae awgrymiadau yn cynnwys:

- nid yw'n deg;
- nid yw'n beth braf;
- mae'n drosedd;
- dylai pawb gael ei drin yr un fath.

Sleid 6: Y Teulu Frank
Darllenwch y testun ar y sleid. Gofynnwch i'r plant ddweud pam y penderfynodd Otto symud o'r Almaen i'r Iseldiroedd.

Sleid 7: Kitty
Darllenwch y testun ar y sleid.

Sleid 8: Cuddio
Darllenwch y testun ar y sleid.
Gofynnwch i'r grŵp beth yw ystyr y geiriau 'mentro popeth'. Beth allai fod wedi digwydd pe baen nhw wedi cael eu dal?

Gall yr atebion gynnwys:

- bydden nhw'n cael eu harestio;
- byddai'r teulu yn cael ei ddarganfod;
- byddai'r awdurdodau yn mynd â'r teulu.

Bu'n rhaid i'r teulu a ffrindiau wir ymddiried yn ei gilydd yn y sefyllfa beryglus hon.

Sleid 9: Y Rhandy
Darllenwch y testun ar y sleid.
Cofiwch bwysleisio'r neges na allent adael y rhan o'r tŷ i fyny'r grisiau ac felly llyfrau oedd ffordd Anne o ddianc o gyfyngder yr ystafell.

Sleid 10: Byw mewn Ofn
Darllenwch y testun ar y sleid.
Dylid eu hatgoffa nad oedd yr un o'r wyth yn gallu mynd tu allan, hyd yn oed gyda'r nos, rhag ofn iddynt gael eu darganfod a datgelu eu cuddfan.

Sleid 11: Gweld Eisiau Pethau
Darllenwch y testun ar y sleid.
Gofynnwch i'r plant feddwl am beth fydden nhw'n gweld ei eisiau. Dylid eu hatgoffa hefyd nad oedd neb yn gwybod am ba mor hir y byddai'r rhyfel neu'r sefyllfa hon yn para. Doedden nhw ddim yn gwybod am faint o amser y byddai'r rhyfel yn tarfu ar eu bywydau.

Sleid 12: Auschwitz
Darllenwch y testun ar y sleid.

Esboniwch i'r plant fod Hitler a'r Natsïaid nid yn unig yn casáu Iddewon, ond eu bod hefyd yn carcharu pobl anabl ac oedrannus, Sipsiwn a phobl Roma, Tystion Jehofa, pobl dduon, dynion hoyw, ac unrhyw un a oedd yn anghytuno â syniadau'r Natsïaid.

Dywedwch wrthynt fod pobl iach a heini yn cael eu gorfodi i weithio mewn swyddi brwnt a pheryglus yn y gwersylloedd crynhoi.

Esboniwch fod niferoedd enfawr o bobl yn cael eu lladd yn fwriadol ac yn systematig gan y Natsïaid yn y gwersylloedd.

Sleid 13: Stori Anne
Darllenwch y testun ar y sleid.
Esboniwch fod llawer o bobl wedi marw oherwydd salwch. Roedd y gwersylloedd yn fudr, nid oedd llawer o fwyd ac aeth pobl yn sâl. Heb feddygon na meddyginiaeth, nid oedd fawr ddim gobaith o wella.

Sleid 14: Dyddiadur Anne
Darllenwch y testun ar y sleid.
Dangoswch gopi o Dyddiadur Anne Frank, os oes gennych un.

Sleid 15: Gwaddol Anne
Dangoswch y clip fideo i grynhoi'r stori.
Darllenwch y testun ar y sleid.
Dechrau ar glic: **Sut y gallwch ddefnyddio'ch geiriau er gwell yn y byd sydd ohoni?**
Nodwch awgrymiadau. Gall yr atebion gynnwys:

- bod yn ddymunol i bawb;
- sefyll i fyny dros bobl os oes rhywun yn pigo arnyn nhw;
- dweud y gwir;
- ysgrifennu dyddiadur;
- sôn am Anne Frank a rhannu ei stori gyda phobl;
- ysgrifennu cerdd neu gân am ragfarn.

Sleid 16: Grym Geiriau
Mae gwers ystafell ddosbarth 'Ysgrifennu i Gofio' CA2 ar gael ar wefan Diwrnod Cofio'r Holocost **yma** er mwyn i blant ddysgu am Renie Inow, a gafodd ei hachub rhag yr Holocost yn blentyn. Gallant ysgrifennu neges iddi ar gerdyn post a chael ymateb. Bydd hon yn ffordd dda o ddilyn y gwasanaeth a helpu plant i ddeall yr hyn a ddysgwyd ganddynt heddiw. Mae fersiwn hawdd ei darllen o stori bywyd Anne Frank hefyd ar gael i'w lawrlwytho yn yr un ddolen os ydych am wneud rhagor o waith ar Anne Frank yn y dosbarth.

Sleid 17: Logo Grym Geiriau
Mae darn o gerddoriaeth ar gael wrth i'r plant adael y gwasanaeth.

HOLOCAUST MEMORIAL DAY TRUST

YMDDIRIEDOLAETH
DIWRNOD
COFIO'R HOLOCOST

DYSGU GWERSI O'R GORFFENNOL
ER MWYN CREU DYFODOL
GWELL A MWY DIOGEL

Rhagor o wybodaeth...

Adnoddau Ymddiriedolaeth Diwrnod Cofio'r Holocost i addysgwyr: **hmd.org.uk/educators**
Yr Holocost: **hmd.org.uk/holocaust**

hmd.org.uk
enquiries@hmd.org.uk
020 7785 7029
@hmd_uk
hmd.uk
@holocaustmemorialdaytrust